Cenn@d

26 Awst 2026

Rhifyn 287

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru

# Testament Newydd William Tyndale

## Dathlu 500 mlynedd cyhoeddi Testament Newydd Saesneg Tyndale




MAE eleni'n flwyddyn nodedig yn hanes cyfieithu'r ysgrythurau i'r Saesneg. Pum can mlynedd yn ôl i'r flwyddyn hon y cyhoeddwyd Testament Newydd William Tyndale yn yr iaith honno. Ganwyd William Tyndale (*c*.1494) yn Swydd Gaerloyw. Yn ieithydd talentog, meistrolodd o leiaf saith o ieithoedd. Graddiodd yn Rhydychen a bu'n astudio yng Nghaergrawnt. Roedd yn offeiriad ac yn ysgolhaig o fri. Fe'i hargyhoeddwyd mai'r Beibl yn unig a ddylai benderfynu arferion ac athrawiaethau'r eglwys ac y dylai credinwyr allu darllen y Beibl yn eu hiaith eu hunain. Yn y cyfnod hwnnw Lladin oedd yn unig iaith awdurdodedig ar gyfer yr Ysgrythurau yng Ngorllewin Ewrop.

Dechreuodd Tyndale weithio ar gyfieithiad o'r Testament Newydd yn gynnar yn y 1530au. Fodd bynnag, wynebai wrthwynebiad mawr a chafodd ei atal rhag gwneud hynny gan yr awdurdodau eglwysig. Barnwyd bod ei waith yn herio awdurdod clerigol, yn hyrwyddo syniadau Protestannaidd, ac yn gwrthod arferion traddodiadol yr Eglwys Gatholig. Sylweddolodd Tyndale na allai gyflawni ei nod yn llwyddiannus yn Lloegr. Aeth i'r Almaen yn 1524 i gwblhau'r gwaith, gan dderbyn cefnogaeth ariannol gan fasnachwyr cyfoethog Llundain. Ym 1525, tra oedd yn byw yn Wittenberg, cwblhaodd Tyndale ei gyfieithiad. Ymddangosodd rhannau ohono yn 1525, wedi'i argraffu yn Cologne, ond gorfodwyd Tyndale i ffoi cyn y gellid ei gwblhau. Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf llawn ohono yn 1526 yn Worms, yr Almaen. O'r fan honno cafodd yr 'argraffiadau wythblyg' bach eu smyglo i mewn i Loegr drwy eu cuddio mewn nwyddau, barilau, bwndeli o gotwm, a sachau o flawd. Gwrthwynebai Harri VIII y cyfieithiad a chafodd ei gondemnio gan swyddogion yr eglwys. Cafodd miloedd o gopïau eu cipio gan yr awdurdodau a'u llosgi'n gyhoeddus! Roedd cyfieithiad Tyndale yn arbennig oherwydd mai hwn oedd y Beibl Saesneg cyntaf i ddefnyddio'r testunau Hebraeg a Groeg gwreiddiol yn hytrach na'r Fwlgat, y cyfieithiad Lladin o'r Beibl a wnaed gan Sant Sierôm yn y bedwaredd ganrif.

Cafodd Tyndale ei ysbrydoli'n drwm gan gyfieithiad Almaenig Martin Luther, a ddefnyddiodd fel model i'w waith. Dylanwad mawr arall oedd gweithiau Desiderius Erasmus. Cyfieithiad Tyndale hefyd oedd yr un Saesneg cyntaf i ddefnyddio technoleg y wasg newydd. Roedd dyfodiad y wasg agraffu yn golygu bod modd lledaenu'r Ysgrythurau a hynny mewn modd fforddiadwy. Helpodd hyn hefyd i ledaenau syniadau'r Diwygiad Protestannaidd yn gyflym.

Diwygiodd Tyndale ei Destament Newydd mewn argraffiadau diweddarach, gyda diwygiadau nodedig a gyhoeddwyd yn 1534 a 1535 i gywiro camgymeriadau a sicrhau cywirdeb. Pan oedd y Testament Newydd wedi'i gwblhau, dechreuodd Tyndale weithio ar yr Hen Destament. Cyhoeddwyd y Pumllyfr yn Marburg yn 1530, gyda phob un o'r pum llyfr yn cael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu ar wahân. Parhaodd i weithio ar gyfieithu'r Hen Destament ond cafodd ei garcharu yn Antwerp cyn iddo gael ei gwblhau. Costiodd ei gredo'n ddrud iawn iddo. Wedi'i gyhuddo a'i gael yn euog o heresi, cafodd ei gondemnio i farwolaeth. Fe'i tagwyd ac yna'i losgi wrh y stanc yn Vilvoorde yn 1536.

Mae gwaith Tyndale o bwys hanesyddol nid yn unig am ei eglurder ieithyddol a'i hygyrchedd i bobl gyffredin ond hefyd ei ddylanwad ar Feiblau Saesneg diweddarach, gan gynnwys Fersiwn y Brenin Iago. Dim ond tri chopi o argraffiad gwreiddiol 1526 sy'n goroesi heddiw, ac maent wedi'u cadw yng Nghadeirlan Sant Paul, Llundain; yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain, ac yn Llyfrgell Genedlaethol Württemberg, yr Almaen. Dylanwadodd ei waith yn fawr hefyd ar yr iaith Saesneg yn gyffredinol a bu'n gyfrwng i'w chyfoethogi. Dim ond unwaith mae'r testun sy'n eiddo i Eglwys Sant Paul wedi bod ar gael i'r cyhoedd ei weld, yn 2017, ac ni chafodd ei weld erioed o'r blaen fel rhan o arddangosfa agored. Mae'r Eglwys Gadeiriol yn mynd i drafferthion mawr i amddiffyn ei gopi drwy ddefnyddio casyn arddangos sy'n ysgafn ac yn ddiogel rhag bwledi â'r tymheredd dan reolaeth. Bydd yr arddangosfa 'A Dangerous Calling – 500 Years of William Tyndale's New Testament' i'w gweld yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul, Llundain, tan ddiwedd mis Chwefror 2027.

(gyda diolch i'r *Ddolen*, Papur Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin)

**Cyswllt Gobaith**
Tudalen 2

**Y pechod gwreiddiol**
Tudalen 3

**Arolwg Eco Eglwys yn y Gymraeg**
Tudalen 4

# Cyswllt Gobaith – Gweledigaeth o Obaith i Gymru

Beth fyddai'n digwydd pe bai'r Eglwys yn dod ynghyd i gynnig mwy na chymorth mewn argyfwng? Beth pe bai'n gallu cynnig llwybr tuag at obaith, urddas a bywyd newydd?

Dyna yw gweledigaeth Cyswllt Gobaith.

Mae Cyswllt Gobaith yn fenter newydd gan South East Wales Presbytery a Henaduriaeth Morgannwg–Llundain sy'n ceisio mynegi cariad Crist mewn ffyrdd ymarferol drwy wasanaethu pobl a chymunedau ledled Cymru. Ei nod yw adeiladu cymunedau lle mae pobl yn cael eu croesawu, eu cefnogi a'u grymuso i ffynnu. Nid dim ond ymateb i angen yw'r weledigaeth, ond helpu pobl i symud ymlaen tuag at ddyfodol gwell.

Yn greiddiol i'r weledigaeth mae'r gred fod pob person yn meddu ar urddas a gwerth. Felly, nid yw Cyswllt Gobaith yn gweld pobl fel rhai sy'n derbyn cymorth yn unig, ond fel unigolion sydd â doniau, gallu a photensial i gyfrannu at fywyd eu cymunedau.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae gwaith Cyswllt Gobaith wedi'i drefnu o amgylch pedair prif gangen, sy'n gweithio gyda'i gilydd fel un llwybr cydlynol.

Y gangen gyntaf yw Gweinidogaethau Gobaith. Dyma fan cychwyn llawer o bobl. Yma ceir cymorth ymarferol drwy fentrau megis cymorth dillad, cefnogaeth i bobl sy'n wynebu digartrefedd, a gwasanaethau llesiant. Y nod yw ymateb yn dosturiol ac yn effeithiol i'r anghenion â'r brys mwyaf.

Ond nid yw'r daith yn gorffen yno. Bydd Hyfforddiant Gobaith yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd a magu hyder. Boed hynny drwy ddysgu gwnïo, coginio neu ddatblygu sgiliau llesiant, y bwriad yw helpu pobl i ennill annibyniaeth ac agor drysau at gyfleoedd newydd.

Y drydedd gangen yw Cwmnïau Cydweithredol Gobaith. Yn hytrach na dibynnu'n barhaol ar gymorth, mae'r weledigaeth yn cynnwys creu mentrau cymdeithasol a chydweithredol sy'n gallu darparu gwaith, profiad ac incwm i bobl. Mae hyn yn adlewyrchu'r gred fod pob person wedi'i greu ar ddelw Duw ac felly'n meddu ar werth cynhenid, ar ddoniau ac ar botensial sy'n haeddu'r cyfle i ffynnu.

Yn olaf, bydd Cymunedau Gobaith yn cydnabod nad yw ffynnu'n ymwneud ag economi yn unig. Mae angen perthyn hefyd. Drwy greu cymunedau o gefnogaeth, myfyrdod, addoliad ac ymgyrchu dros gyfiawnder, bydd Cyswllt Gobaith yn ceisio adeiladu perthnasoedd sy'n para ac sy'n rhoi ymdeimlad o obaith a pherthyn.


Yr hyn sy'n gwneud Cyswllt Gobaith yn wahanol yw nad yw'r pedair cangen yn gweithredu ar wahân. Maent yn ffurfio un llwybr integredig: o gymorth brys, i ddatblygu sgiliau, i greu cyfleoedd gwaith ac, yn y pen draw, i berthyn i gymuned ffydd fywiog lle gall pobl ffynnu.

Mae'r weledigaeth yn un uchelgeisiol, ond hefyd yn un syml. Cymru lle mae eglwysi, gwirfoddolwyr, partneriaid a chymunedau'n cydweithio i weld pobl yn symud o argyfwng i obaith, o unigedd i berthyn, ac o ddibyniaeth i gyfraniad.

Dyna yw calon Cyswllt Gobaith: nid darparu cymorth yn unig, ond helpu i drawsnewid bywydau a chymunedau, un person ar y tro.

Mae Cyswllt Gobaith yn wahoddiad i'r Eglwys ailddarganfod ei galwad i wasanaethu Cymru gyfan – nid yn unig drwy eiriau o obaith, ond drwy gymunedau sy'n gwneud gobaith yn weladwy.

*Owen Griffiths*



# O Gefn Gwlad

Colofn Elfyn Pritchard

## Y pechod gwreiddiol

Dyma fentro'i drafod fel yr hanner addewais gan ein bod wedi gwneud hynny yn ein Cylch yma yng Nghefnddwysarn. A menter ydyw, o gymryd i ystyriaeth yr holl erthyglau ac esboniadau sydd wedi eu hysgrifennu o'i gwmpas. Ni wn am y rhan fwya, rwy'n siŵr, ond ewch ar y We a chewch syniad da o beth o'r cymhlethdod. Yn ffodus i mi, fodd bynnag, y mae'n gwestiwn syml. A falle mai fi sy'n wirion i gredu hynny ac yn arddangos anwybodaeth ddybryd neu gamddehongli wrth ddweud hynny, ond bydded felly.



Yn ôl Genesis, fe'n crëwyd gan Dduw, gan ddechrau efo Adda ac Efa. Am iddyn nhw bechu, fe'u trowyd allan o'r ardd gan Dduw ac fe sicrhawyd bod pawb a enid o hynny allan eisoes yn bechadur. Ychwanegwyd at y gred hon gan eraill o'r dehonglwyr: un yn dweud fod dyn yn gorff ac enaid, gyda'r corff yn sylfaenol ddrwg a'r enaid yn sylfaenol dda; un arall yn honni bod pechod yn cael ei drosglwyddo yn yr act o genhedlu. Ac mae yna gred fod rhyw yn rhywbeth sylfaenol ddrwg, beth bynnag, a hyn yn seiliedig, mae'n debyg, ar adnod 5 yn Salm 51: 'Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd; ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf'.

A dyna un o'r anawsterau mawr cyn belled ag y mae cred a'r Beibl yn bod, sef y gallwn ddehongli cymaint ohono fel y dymunwn, a dod o hyd i ddyfyniadau sydd – o'u tynnu allan o gyd-destun, efallai – yn gallu profi unrhyw beth. Rwy'n euog o hynny fy hun, siŵr o fod.

Yn ôl at y pechod gwreiddiol, a'r gred fod pob un ohonom yn bechadur hyd yn oed cyn ein geni. Gan fod hyn yn ffaith, neu felly y deallaf fi bethau: roedd yn rhaid i Grist farw drosom yn Iawn am ein pechod ni ('Yr Iawn a dalwyd ar y groes/ yw sylfaen f'enaid gwan'). Hynny ydi, talu'r pris yn ein lle oherwydd ein pechod ni, y pechod gwreiddiol na allwn ni ein hunain wneud dim yn ei gylch, na dim – hyd yn oed pe byddem yn byw fel un o'r seintiau – i'n cyfiawnhau ein hunain.

Talu'r pris i bwy? Wel, i Dduw, debyg iawn. Onid yw hynny'n gwneud Duw yn dduw yn y meddylfryd Rhufeinig/ Groegaidd/ paganaidd? Duw sy'n hawlio'i bris am bopeth ac un y gellir ei ddigio neu ei blesio. Mae credu ynddo yn ei foddhau, a pheidio â chredu ynddo yn dwyn ar ein pennau gosbedigaeth erchyll. Ac un enw ar y croeshoeliad a'r hyn ddigwyddodd ar y Groes yw prynedigaeth ('Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw'), sy'n cymhlethu mwy fyth ar bethau i mi!

Ond meddai'r Beibl: 'Duw, cariad yw'. Debyg iawn, meddai'r dehonglwyr; fe ddangosodd ei gariad tuag atom trwy anfon ei Fab i fyw a marw drosom. Un yw Duw, felly, a greodd sefyllfa arbennig er mwyn profi ei gariad ei hun tuag atom. Rwy'n prysur fynd i'r gors, felly gwell imi ddatgan sut y gwelaf fi bethau, a hynny'n hollol anghywir, falle.

Gwell a chywirach i'm tyb i na'r syniad o bechod gwreiddiol yw disgrifiad Rousseau, yr athronydd Ffrengig, o berson fel *le bon sauvage* a chan y bardd Saesneg Dryden fel (y cyfieithiad Saesneg o'r Ffrangeg)) 'noble savage'. O edrych ar ddatblygiad aml un yn y byd hwn, mi dybiaf fod y disgrifiad yn go agos i'w le. Y mae pob rhiant yn gobeithio'r gorau i'w baban pan enir ef, yn ddiniwed gariadus. A gall dyfu i fyny'n wasanaethwr cymdeithas, yn un sy'n tendio ar bawb, yn dangos consýrn am bobol, neu fe all dyfu i fyny'n lleidr neu lofrudd, neu werthwr cyffuriau, ac enghreifftio'r ddau eithaf. Y mae posibiliadau da a drwg ynddo; hynny ydi, gall fod yn nobl neu'n anwariad. Nid ein bod wedi ein geni'n bechaduriaid, ond fod y posibilrwydd hwnnw ynom, ac mai un o'r pethau wnaeth Crist inni oedd dangos sut y dylem fyw ar y ddaear hon, yn gweithredu cariad nid casineb, daioni nid drygioni.

Ac am iddo atgyfodi, yn ysbrydol nid yn gorfforol, fe sicrhaodd i ni bosibilrwydd y gallem ninnau fod yn meddiannu nid corff a meddwl yn unig, ond enaid neu ysbryd hefyd, a bod Crist yn gallu gweithio ynom a thrwom, a bod drwy'r Ysbryd Glân yn rhan ohonom

Y fi oedd yn cymryd y Cylch Trafod pan ystyriwyd hyn oll, a gallaf ddeall os byddwch chi, ddarllenwyr, o'r farn mai'r hyn sy'n digwydd yn ein cyfarfodydd yw fod y dall yn arwain y dall!

## Gweinidogion Chwim

Yn ddiweddar cynhaliwyd noson mabolgampau MIC Sir Gaerfyrddin, ac fel rhan o'r noson cafwyd ras rhwng y Gweinidogion. Dyma oedd y canlyniad:

1af Guto Llywelyn
2ail Sian Elin Thomas
3ydd Emyr Williams
4ydd Beti-Wyn James



# Arolwg Eco Eglwys yn y Gymraeg




Mae'n bleser cyhoeddi y gall eglwysi nawr gwblhau arolwg Eco Church/ Eco Eglwys ar-lein yn y Gymraeg. Bellach, gyda dros 630 o gapeli ac eglwysi o Gymru wedi cofrestru gyda'r cynllun (ar draws yr enwadau) a bron i 100 o wobrau arian a 9 gwobr aur wed'u dyfarnu, mae pethau'n edrych yn addawol iawn! Rydym wedi bod yn gweithio i gyflawni'r prosiect swmpus yma am beth amser, gan mai'r arolwg yma sydd wrth wraidd yr holl gynllun. Mae ei gael yn Gymraeg felly'n destun balchder mawr i ni. Dyma'r unig iaith y mae arolwg Eco Eglwys ar gael ynddi (yn swyddogol!) ar wahân i Saesneg. Rydym wedi cyrraedd y nod hwn yn ystod ein degfed blwyddyn eleni!

Yn syml, rhaglen ymarferol ar lein yw Eco Church/ Eco Eglwys i dywys eglwysi ar y daith i gymryd camau i fod yn fwy gofalgar ac ystyrlon o ran yr amgylchedd a gofalu am y cread. Mae pum adran i'r cynllun: Addoli ac Addysgu; Adeiladau ac Ynni; Tir a byd natur; Ymgysylltiad cymunedol a byd eang; a Ffordd o fyw.

Mae yna lu o ddeunyddiau ac adnoddau Cymraeg wedi bod ar gael ers blynyddoedd, ac ers tua deunaw mis mae dwy ddogfen esboniadol wedi bod ar gael hefyd: un yn rhoi cipolwg ar gynllun Eco Eglwys ac un arall yn rhoi syniadau sut i ddechrau Eco Eglwys, ynghyd â dogfennau 'trosolwg' i bob un o'r pum adran.

Felly, ewch draw i gael golwg, ac ar ôl i chi gofrestru ac ymuno â'ch eglwys, ar ddechrau'r arolwg dewiswch yr opsiwn Cymraeg: https://ecochurch.arocha.org.uk/.

Yn dilyn gwasanaeth llwyddiannus iawn yn Abertawe ym mis Mai, cadwch lygad allan am fanylion gwasanaeth arbennig yn Lerpwl ar 3 Hydref i ddathlu deng mlynedd o waith Eco Church/ Eco Eglwys. Byddai'n braf gweld cynrychiolaeth o eglwysi gogledd Cymru yno.

*Delyth Higgins*
*Swyddog Eco Eglwysi Cymru, A Rocha*

# Taro'r Post

## Cofio Tom Williams

Gweld ei lun yn *Cenn@d* a'm hatgoffodd o flynyddoedd cynta'r saithdegau pan aeth criw bychan ohonom ym Mhenllyn ati i sefydlu siop Awen Meirion yn y Bala – siop, gyda llaw, sy'n bodoli ac yn ffynnu o hyd.

Roedd Tom Williams yn rheolwr Banc y Midland yn y dre ar y pryd, a chawsom gymorth amhrisiadwy ganddo gyda materion ariannol, gan gynnwys trefnu benthyciad i ni. Yn wir, mae'n deg dweud na fyddai'r siop yn bod heb ei gymorth o.

Onid ein hangen ym mhob maes yng Nghymru yw am bobl dda a Christnogion gloyw? Coffa da amdano.

*Elfyn Pritchard, Sarnau*

## Gair o brofiad

Diolch am y deyrnged i John Owen a ymddangosodd yn *Cenn@d* yn ddiweddar.

Caniatewch i mi rannu gair o brofiad. Doedd dim modd i mi gael neb gwell, mwy cadarn, cyson a doeth na John wrth imi baratoi at y weinidogaeth. Bu'n weinidog arnaf tan ei ymddeoliad yn 2003, a chefais y pleser a'r fraint fawr o'i adnabod am bron i hanner canrif (1977–2026). Roedd ei ofal ohonof, a phawb arall, bob amser cystal ag unrhyw dad!

Fe bregethodd yn y Tabernacl, Rhuthun, am y tro olaf ar 8 Tachwedd 2025 gyda 43 yn y gynulleidfa.

Ar 23 Tachwedd, cefais y fraint o fynd â fo i bregethu yn Nhrefnant (Dyffryn Clwyd), sef yr eglwys y cefais fy magu ynddi nes oeddwn yn 13 oed. Y Sul yma roedd yn rhoi'r gorau i bregethu'n gyfan gwbl. Ar y ffordd adref fe grynhodd ein perthynas a'n cyfeillgarwch mewn un frawddeg hyfryd: 'Roeddwn i hefo chi ar ddechrau eich gweinidogaeth, a chithau hefo mi ar ddiwedd f'un i!' Daeth ton o orfoledd ac emosiwn drosof, ac mor falch oeddwn ei fod wedi f'atgoffa o hyn. Dyma ddiwedd teilwng, a brawddeg y byddaf yn ei chofio ac yn ei thrysori am byth.

*Iorweth P. Jones, Rhuthun*

*Mae golygyddion Cenn@d bob amser yn croesawu derbyn gohebiaeth mewn ymateb i gynnwys a ymddangosodd yn yr wythnosolyn. Gyrrwch air atom ar e-bost - mae'r cyfeiriadau isod.*

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru
Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)
Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru
Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.